**Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008**

**15 Ebrill 2008**

**Ieuan Wyn Jones AC, Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

Mae'n rhoi pleser mawr i mi gael cyhoeddi heddiw fy mod, yn unol â Rheol Sefydlog 23, wedi cyflwyno gerbron y Cynulliad ddrafft o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, yn ogystal â Memorandwm Esboniadol a Nodiadau Esboniadol.

Yr wyf o'r farn bod y Mesur yn gyfle pwysig i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau gwelliannau ar gyfer dysgwyr. Yng Nghymru, gwyddwn o brofiad chwerw bod ymddygiad gwael wrth deithio i'r ysgol ac oddi yno yn fygythiad gwirioneddol i ddiogelwch. O'r herwydd, un o themâu cryf y Mesur yw darparu'r fframwaith ar gyfer gwella diogelwch drwy fynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol. Mae'r Mesur yn ymdrin hefyd â chynaliadwyedd, yn dod â'r ddeddfwriaeth ar drefniadau cludiant i'r ysgol ynghyd ac yn rhoi mwy o hawl i ddisgyblion ysgolion cynradd gael cludiant am ddim.

Ym mis Mehefin 2007, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad gynigion drafft ar gyfer y Mesur hwn at ddibenion ymgynghori a chyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2007 Llywodraeth Cynulliad Cymru | Cynigion ar gyfer Mesur Cynulliad Teithio gan Ddysgwyr (Cymru). Ym mis Gorffennaf 2007, dechreuodd y Pwyllgor Menter a Dysgu hefyd graffu ar y cynigion ar gyfer y Mesur a chyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar 21 Tachwedd 2007 http://www.cynulliadcymru.org/cr-ld6874.pdf.

Ar ôl mynd ati'n ofalus i ystyried safbwyntiau'r rheini yr ymgynghorwyd â hwy a'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu, yr wyf wedi gwneud sawl newid i'r Mesur ac wedi ychwanegu ato. Yr wyf yn ddiolchgar i bawb a gyflwynodd sylwadau ac yr wyf yn gobeithio y bydd croeso cyffredinol i'r gwelliannau a ddeilliodd o'r ymgynghoriad.

Dyma'r prif ddatblygiadau:

- er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru o ran y dull o weithredu, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cod ymddygiad a fydd yn gymwys i'r holl deithio gan bobl ifanc o dan 19 mlwydd oed mewn cysylltiad â dysgu, ni waeth a yw'r trefniadau hynny'n cael eu gwneud gan yr awdurdod lleol ai peidio. Mae hyn yn cynnwys teithio yn ystod y dydd. Bydd y cod yn dod yn rhan o bolisi ymddygiad cyffredinol yr ysgol a bydd yn rhaid i ddisgyblion ysgol gydymffurfio ag ef;

- awdurdodau lleol fydd yn bennaf gyfrifol am ymchwilio i bob achos sy'n digwydd wrth deithio i'r ysgol ac oddi yno ac os oes disgyblion sy'n elwa ar drefniadau a wneir gan yr awdurdod lleol yn gysylltiedig â digwyddiad, awdurdodau lleol hefyd fydd yn gyfrifol am orfodi'r cod ymddygiad. Os yw hynny'n briodol, bydd yr awdurdod lleol yn gallu tynnu'n ôl am gyfnodau penodedig yr hawl i gludiant y mae wedi'i drefnu. Eglurir hyn ymhellach mewn canllawiau a fydd hefyd yn nodi'r trefniadau ar gyfer ymdrin ag achosion sy'n digwydd pan fyddo disgyblion yn cerdded, yn seiclo, yn cael eu cludo mewn cludiant preifat neu pan na fyddont fel arall yn elwa ar drefniadau teithio a wneir gan yr awdurdod lleol. Yn yr achosion hynny, mater i'r pennaeth fydd y camau gorfodi gan y bydd cydymffurfio â'r cod yn dod yn rhan o bolisi ymddygiad cyffredinol yr ysgol;

- gofyniad ar awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru, wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan y Mesur, i hybu mynediad i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg;

- rhaid i awdurdodau lleol ystyried anghenion plant sy'n 'derbyn gofal' a phlant a fu 'gynt yn derbyn gofal' pan fyddant yn asesu anghenion teithio dysgwyr yn eu hardaloedd;

- rhaid i awdurdodau lleol ddarparu cludiant ar gyfer plant sy'n derbyn gofal os ydynt yn byw mwy na dwy filltir (yn achos ysgolion cynradd) neu dair milltir (yn achos ysgolion uwchradd) o'u hysgolion hyd yn oed os oes ysgol agosach y gallent ei mynychu;

- egluro pwy sy'n gyfrifol am gostau teithio ar gyfer plentyn sy'n 'derbyn gofal' os yw'r trefniadau teithio'n cael eu gwneud mewn ardal awdurdod arall.

O ran ymddygiad, er fy mod yn cydnabod bod gan nifer o awdurdodau lleol eisoes godau ymddygiad sy'n ymdrin ag ymddygiad wrth deithio, nodais y pryderon ynghylch y ffaith eu bod yn gallu amrywio, ac yn amrywio, o'r naill ardal i'r llall. Yr oedd pryderon hefyd am y ffaith nad yw'r codau ond yn gymwys i drefniadau teithio a wneir gan awdurdodau lleol ac i siwrneiau i fannau dysgu ac oddi yno ar ddechrau a diwedd y dydd. Yn fy marn i, mae angen cysondeb ledled Cymru ac mae angen i'r cod ymddygiad fod yn gymwys i bob siwrnai sy'n gysylltiedig â dysgu ni waeth a yw'r awdurdod lleol yn rhoi cymorth i'r dysgwr deithio ai peidio. Yr wyf, felly, wedi penderfynu y dylai Gweinidogion Cymru wneud ac adolygu o bryd i'w gilydd yr hyn sydd, i bob pwrpas, yn god ar gyfer Cymru gyfan, sy'n nodi'r safonau ymddygiad a fydd yn ofynnol gan ddysgwyr tra byddant yn teithio mewn cysylltiad â'u dysgu (adran 12 o'r Mesur). Heb ragfarnu'r broses o graffu ar y Mesur gan y Cynulliad, yr wyf wedi gofyn i fy swyddogion ddechrau gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol er mwyn datblygu cod o'r fath.

Yr wyf am i'r awdurdodau lleol arwain y gwaith o ymchwilio i ddigwyddiadau, ond bydd angen iddynt gydweithio'n agos ag ysgolion a darparwyr cludiant. Caiff canllawiau manwl am y mater hwn eu cyhoeddi o dan adran 15 o'r Mesur.

Gan droi at orfodi, mae adran 14 o'r Mesur yn rhoi'r pwerau i awdurdodau lleol, yn ddarostyngedig i amodau, dynnu'n ôl drefniadau teithio am gyfnodau penodedig os ydynt yn fodlon bod dysgwr wedi methu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad wrth deithio. Mae adran 13 o'r Mesur yn diwygio adran 89 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 er mwyn gosod dyletswydd ar benaethiaid i benderfynu ar gamau disgyblu. Bydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddisgyblion mewn ysgolion perthnasol yng Nghymru gydymffurfio â'r cod ymddygiad wrth deithio a lunnir gan Weinidogion Cymru. Mae hyn yn golygu y ceir cymryd camau disgyblu hyd yn oed yn erbyn y disgyblion ysgol hynny nad yw'r awdurdod lleol yn gwneud trefniadau teithio ar eu cyfer os ydynt yn methu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad wrth deithio.

Yr wyf wedi bod yn awyddus i sicrhau bod cludiant i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn parhau i gael ei ddarparu ond yr wyf yn cydnabod ar yr un pryd, o ystyried yr amryfal batrymau o ddarpariaeth a geir mewn perthynas ag addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac o ystyried yr amodau gwahanol a geir ar draws Cymru, na fydd un ateb yn gallu diwallu anghenion pawb. Yr wyf yn ymwybodol hefyd fod pob awdurdod lleol, yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, yn paratoi, fel rhan o'u Cynlluniau Iaith Gymraeg, Gynlluniau Addysg Gymraeg sy'n nodi sut y byddant yn hyrwyddo dysgu Cymraeg yn gyffredinol, naill ai drwy ysgolion cyfrwng Cymraeg neu drwy ddysgu'r Gymraeg fel ail iaith mewn lleoliadau eraill. Yr wyf wedi penderfynu ategu'r uchod drwy osod dyletswydd newydd (adran 10 o'r Mesur) ar

awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau, i hybu mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yr oedd y rheini yr ymgynghorwyd â hwy wedi awgrymu y gallai'r Mesur fod yn fwy clir ynghylch plant sy'n 'derbyn gofal' ac a fu 'gynt yn derbyn gofal', ac y gallai gyfeirio'n benodol atynt. Mae cyfrifoldebau gan yr awdurdodau lleol eisoes mewn perthynas â'r plant a'r bobl ifanc hyn o dan ddeddfwriaeth megis y Ddeddf Plant, gan gynnwys sicrhau dilyniant, sefydlogrwydd a hyrwyddo addysg a chyrhaeddiad addysgol. Er hynny, penderfynais y dylai'r Mesur hwn hefyd sicrhau bod y grŵp hwn, sy'n agored i niwed, yn cael ei ystyried o ran eu hanghenion teithio fel dysgwyr. O dan adran 2 o'r Mesur, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol eu cynnwys hwy wrth asesu anghenion teithio yn eu hardaloedd. Eir ati'n benodol yn adran 3 i nodi'r meini prawf a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau teithio ar eu cyfer ac mae adran 4 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau teithio eraill ar gyfer y plant hyn os oes angen. Mae adran 18 yn egluro'r trefniadau rhwng awdurdodau ar gyfer talu costau teithio.

Nid yw'r darpariaethau a'r amcanion allweddol eraill yn y Mesur arfaethedig wedi'u newid. Bydd y Mesur:

- yn darparu fframwaith deddfwriaethol wedi ei symleiddio ac ar wahân ar gyfer Cymru y gellir ei ddatblygu i gefnogi polisïau addysg a thrafnidiaeth wrth iddynt esblygu;
- yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu anghenion teithio pob dysgwr o dan 19 mlwydd oed;
- yn rhoi'r hawl i fwy o ddisgyblion ysgolion cynradd gael cludiant am ddim - os ydynt yn byw ddwy filltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf;
- yn cadw'r trothwy pellter presennol o dair milltir er mwyn i ddisgyblion ysgolion uwchradd fod yn gymwys i gael cludiant am ddim;
- yn darparu'r gallu i wneud newidiadau yn y dyfodol i hawliau teithio plant sy'n derbyn addysg feithrin a myfyrwyr ôl-16;
- yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ac i Weinidogion Cymru hybu dulliau cynaliadwy o deithio;
- yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach gydweithredu;
- yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol newid amserau sesiynau ysgolion er mwyn gwneud trefniadau teithio yn fwy effeithiol, effeithlon a chynaliadwy yn amgylcheddol. Bydd canllawiau'n sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau lleol, wrth ystyried y mater hwn, roi sylw i anghenion addysgol ac anghenion gweithredol ysgolion;
- yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi cyfarwyddiadau a chanllawiau statudol.

Codwyd materion a oedd yn ymwneud â theithio mewn cysylltiad â Llwybrau '14-19' gan y Pwyllgor Menter ac Addysg ac eraill. Mae'r Mesur, wrth gwrs, yn darparu ar gyfer asesu a diwallu anghenion teithio myfyrwyr 'Llwybrau' ar ddechrau a diwedd y dydd ond, yr wyf wedi cytuno â fy nghydweithwraig, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, y byddai'n briodol edrych ar faterion yn ymwneud â chludiant ochr yn ochr â sylwadau am y Mesur Dysgu a Sgiliau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymgynghori yn ei gylch ar hyn o bryd.

Yr oedd nifer o'r materion a godwyd gan y rheini yr ymgynghorwyd â hwy a chan y Pwyllgor yn ymwneud â rheoleiddio bysiau ac â materion diogelwch. Bydd yr Aelodau'n gwybod na all y Mesur ymdrin â'r materion hyn am nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Er hynny, byddaf yn ceisio rhagor o bwerau yn y maes hwn. Yn y cyfamser, yr wyf heddiw yn cyhoeddi canllawiau newydd i'r awdurdodau lleol ar faterion o'r fath. Er enghraifft, yn ogystal â'u hannog i gynnal gwiriadau ar yrwyr ac i ystyried manteision teledu cylch cyfyng a hebryngwyr, yr wyf yn eu hannog i beidio â defnyddio'r consesiwn lle

caniateir i dri eistedd ar sedd a fwriadwyd ar gyfer dau nac i ddefnyddio bysiau deulawr ar gyfer teithio i'r ysgol ac oddi yno.